

I Clyw.

Yn rhywle mae cweryla
a'r oes yn mynd dan groen
serch pob merch a mab.

Sŵn casineb
yn llenwi lle â llanast,
a gwerth ein gwaith
yn wynt dan y pentan.

Gwêl y cylchoedd gwahanedig
yn crafu croen fel brwsh dillad caled.

Sgrwbio nes gwaedu er mwyn gallu anadlu.

Diffyg gwres.
Diffyg maeth.
Diffyg cysur.

Torri bol i dorri baich.

Gwaith tŷ, gwaith tir.
Gwaith bwydo, gwaith pwytho.
Gwaith magu, gwaith credu.
Gwaith cofio.

Y difrod a'r dyfodol yn crynodi
ym motymau arian gloyw
iwnniform taclus y gelyn.

Rhwng y botwm a'r pwyth mae bwled
yn torri drwy'r cnawd a'r cysgod gwrywaidd
ac yn rhyddhau.

Arfau rhyfel rhyfedd
yn rhoi'r rhyddid i ddewis.
I greu llygaid sy'n gweld
a chlustiau sy'n gwrando.

II Clyw eto.

Hedfanna'r dyddia ar hyd oes
o anghofio,
a rhyfel yn agos,
yn llawer rhy agos.

Cyn i'n breuddwydion dorri'n deilchion,
asio wna'n lleisiau
yn haenau ein hanes:

Ac yn ein cân
mae dagrau,
ac yn ein dagrau
mae heddwch.

A daw ein ddoe i estyn yn ddistaw
yn erbyn gwenwyn gwag y dydd.

Manon Awst